
# Fiona Gately – Aelod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yma ceir amlinelliad o hanes proffesiynol Aelodau ein Bwrdd a manylion am unrhyw fuddiannau busnes a allai fod ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.



Mae gan Fiona Gately brofiad helaeth yn y diwydiant bwyd, gan weithio ar draws y sector i sefydliadau'r llywodraeth, busnesau a chyrff eiriolaeth.

Mae wedi gwasanaethu fel cynghorydd arbenigol ar fwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac wedi gwasanaethu ar ei Phwyllgor Cynghori ar Safonau Organig rhwng 2003 a 2005. Rhwng 2004 a 2011, bu'n cyfarwyddo ymgyrchoedd Jamie Oliver ar ginio ysgol, sgiliau coginio a gordewdra yn y DU a'r UDA, gan arwain gwaith ymgysylltu â defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r llywodraeth. Yn 2005, sefydlodd School Food Trust ar gyfer yr Adran Addysg i gyflwyno safonau a chanllawiau newydd ar gyfer prydau ysgol. Gwasanaethodd ar y Bwrdd rhwng 2009 a 2011.

Sefydlodd Fiona ystod o gynnyrch arobryn ar gyfer Duchy Originals, brand bwyd y Brenin Charles, gan sefydlu cadwyni cyflenwi a phartneriaethau gweithgynhyrchu a chodi ymwybyddiaeth defnyddwyr o fwyd organig. Yn fwy diweddar, bu'n gweithio fel pennaeth marchnata gyda chwmni llaeth organig cydweithredol y DU, Omsco.

## Buddiannau Personol

### Ymgyngoriaethau a/neu gyflogaeth uniongyrchol

- Perchennog a chyfarwyddwr ymgynghoriaeth fusnes, Nourish Communication Ltd
- Ymgynghorydd, Rothschild Foundation

## Rolau Di-dâl

- Cyfarwyddwr, 75/77 Kensington Gardens Square Ltd
- Aelod Sefydlol, Pwyllgor Llywio, Rhwydwaith Addysg Bwyd

## Gwaith â thâl

- Dim

## Cyfranddaliadau

- Perchennog, Nourish Communication Ltd.

## Clybiau a sefydliadau eraill

- Aelod o Glwb Hwylio Brenhinol Hong Kong
- Aelod o Glwb Nofio’r Serpentine

## Buddiannau personol eraill

- Dim

## Cymrodoriaethau

- Cymrawd yn y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol

## Cymorth anuniongyrchol

- Dim

## Ymddiriedolaethau

- Dim

## Tir ac eiddo

- Dim

## Penodiadau cyhoeddus eraill

- Dim

## Buddiannau nad ydynt yn rhai personol

- Dim